**GWASANAETH TAN AC ACHUB DE CYMRU**
**MANYLEB PERSONOL**

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Hyfforddi a Datblygu |
| **TEITL Y SWYDD** | Gweinyddwr Systemau Hyfforddi |
| **RHIF Y SWYDD** | 504124 |
| **GRADD** | 5 |
| **LLEOLIAD** | Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd |

Defnyddir meini prawf hanfodol mewn llythrennau **bras.** Dylech sicrhau eich bod chi'n cyfeirio at y gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (yn yr adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech chi ddarparu tystiolaeth eglur sy'n dangos eich bod chi'n cwrdd â'r holl feysydd yn seiliedig are ich sgiliau, gwybodaeth, profiad a galluoedd sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle bydd cymhwyster wedi ei hamlygu yn 'Feini Prawf Hanfodol', bydd rhaid i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau gyda'ch Ffurflen Gais.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol/ Dymunol | Modd Adnabod |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth/ Profiad** | **Profiad ymarferol o ddefnyddio pecynnau Microsoft Office e.e. Outlook, Word ac ati*** | **Hanfodol*** | **Y Ffurflen Gais*/** Y Broses Ddethol |
| | **Profiad o weithio'n annibynnol/heb oruchwyliaeth o fewn Rôl Weinyddol* yn ogystal â chefnogi eraill.** | **Hanfodol*** | **Y Ffurflen Gais*/** Y Broses Ddethol |
| | Gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg | Dymunol | Y Ffurflen Gais/ Y Broses Ddethol |
| **Arddull Bersonol** | Gallu croesawu a gwerthfawrogi amrywiaeth a dangos agwedd deg a moesegol ym mhob sefyllfa. | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | **Gallu gweithio mewn cydymffurfiaeth lawn â pholisïau a gweithdrefnau cyfrinachedd.*** | **Hanfodol*** | **Y Ffurflen Gais*/** Y Broses Ddethol |
| | Bod yn agored i newid a'r awydd i fynd ati i geisio ei gefnogi. | Hanfodol | Y Broses Ddethol |

Dyddiad Creu: 01/09/2022
Awdur: M. Tait

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhyngbersonol** | Gallu gweithio'n effeithiol gydag eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub ac yn y Gymuned ill dau. | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | Gallu cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig i ystod o wahanol gynulleidfaoedd. | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| **Tasg** | Gallu deall, cofio, cymhwyso ac addasu gwybodaeth berthnasol mewn ffordd drefnus, ddiogel, systematig (h.y. datrys problemau). | Hanfodol | Y Broses Ddethol |
| | **Gallu creu a gweithredu cynlluniau effeithiol a chofnodi penderfyniadau i gwrdd â gofynion adrannol.*** | **Hanfodol*** | **Y Ffurflen Gais*/** Y Broses Ddethol |
| | Gallu mabwysiadu agwedd gydwybodol a rhagweithiol at waith er mwyn cyflawni a chynnal safonau rhagorol. | Hanfodol | Y Broses Ddethol |

Gofynnir i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir penodiad.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg a'r Gymraeg ill ddau a chroesewir cyfathrebiadau yn y naill iaith a'r llall.

Dyddiad Creu: 01/09/2022
Awdur: M. Tait